



CYNORTHWYDD RISG YSTADEGOL – 502198 GRADD 6

CYFLOG: o £21,695 – £22,571
37 awr yr wythnos - swydd barhaol

Yn rôl **Cynorthwydd Ystadegol a Risg**, byddwch chi'n gyfrifol am goladu a dilysu data a gwybodaeth o lawer o ffynonellau mewnol ac allanol, gan ddefnyddio cyfres o systemau a phrosesau TGCh.

Byddwch chi'n rhoi arweiniad i staff gweithredol i sicrhau bod gwybodaeth am ddigwyddiadau yn cael ei mewnbynnu'n gywir ac yn amserol i'r System Cofnodi Digwyddiadau (IRS), yn unol â'r canllawiau cenedlaethol diweddaraf, ac yn gweithio gyda'r adran Diogelwch Cymunedol i gefnogi eu prosesau ansawdd data. Bydd y rôl yn cefnogi holl swyddogaethau allweddol y tîm i sicrhau llif ansoddol ac amserol o wybodaeth yn fewnol ac allanol ill dau i'r sefydliad.

Mae hon yn rôl barhaol a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, ond gallai olygu teithio i leoliadau eraill. Rydym yn cynnig:

- System gweithio oriau hyblyg
- Gweithdrefnau sy'n gyfeillgar i deuluoedd
- Campfa ar y safle
- Lwfans ymarfer corff wythnosol (60 munud)
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol

Gellir canfod mwy o fanylion mewn perthynas â'r swydd hon o fewn y Swydd-Ddisgrifiad a'r Fanyleb Person. Os bydd unrhyw ymholiadau pellach gyda chi, mae croeso i gysylltu â'r Rheolwr Llinell, Suzanne Absalom, drwy law e-bost s-absalom@decymru-tan.gov.uk

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad a Manyleb Person o dudalen Gweithio i Ni/Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk.

Dylid dychwelyd ceisiadau gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX neu drwy law e-bost: personel@decymru-tan.gov.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw Dydd Mercher 5ed o Hydref 2022 am 12:00.

Bydd y Cyfweiliadau/Proses Ddethol yn digwydd ar Dydd Gwener 14eg o Hydref 2022.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweiliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweiliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweiliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.